

Briff Ymchwil

# Bil Iechyd y Cyhoedd (Cymru)

- Crynodeb o Fil
- Crynodeb o newidiadau Cyfnod 2
- Geirfa Gymraeg

Cynulliad Cenedlaethol Cymru
Y Gwasanaeth Ymchwil

Cynulliad Cenedlaethol Cymru yw'r corff sy'n cael ei ethol yn ddemocrataidd i gynrychioli buddiannau Cymru a'i phobl, i ddeddfu ar gyfer Cymru, i gytuno ar drethi yng Nghymru, ac i ddwyn Llywodraeth Cymru i gyfrif.

---

Awdur: **Lizzie Norris, Gareth Thomas, Philippa Watkins**
Dyddiad: **Mai 2017**
Rhif Papur: **17-006**

**Mae'r Gwasanaeth Ymchwil yn cydnabod y gymrodoriaeth seneddol a roddwyd i Elizabeth Norris gan Engineering and Physical Sciences Research Council ac Gyngor Ymchwil yr Amgylchedd Naturiol, a alluogodd i'r erthygl hon gael ei chwblhau.**

## Cysylltwch â ni

**Y Gwasanaeth Ymchwil**
**Cynulliad Cenedlaethol Cymru**
**Tŷ Hywel**
**Bae Caerdydd**
**Caerdydd**
**CF99 1NA**

**: 0300 200 6320**
**: Philippa.Watkins@Cynulliad.Cymru**
**: Cynulliad.Cymru/Pigion**
**: @SeneddYmchwil**
**: Cynulliad.Cymru/Ymchwil**

**© Hawlfraint Comisiwn Cynulliad Cenedlaethol Cymru 2017**
Ceir atgynhyrchu testun y ddogfen hon am ddim mewn unrhyw fformat neu gyfrwng cyn belled ag y caiff ei atgynhyrchu'n gywir ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol na difrïol. Rhaid cydnabod mai Comisiwn Cynulliad Cenedlaethol Cymru sy'n berchen ar hawlfraint y deunydd a rhaid nodi teitl y ddogfen.

Briff Ymchwil

# Bil Iechyd y Cyhoedd (Cymru)

Cynulliad Cenedlaethol Cymru
Y Gwasanaeth Ymchwil

# Cynnwys


1. **Cyflwyniad** ..... 1
2. **Cefndir** ..... 2

   Cymhwysedd deddfwriaethol ..... 2

   Amcanion polisi'r Bil ..... 2

   Datblygiad y Bil ..... 3
3. **Bil Iechyd y Cyhoedd (Cymru): crynodeb o ddarpariaethau** ..... 5

   Rhan 1 Trosolwg ..... 5

   Rhan 2 Tybaco a Chynhyrchion Nicotin ..... 5

   Rhan 3 Triniaethau arbennig ..... 7

   Rhan 4 Rhoi twll mewn rhan bersonol o'r corff ..... 8

   Rhan 5 Asesiadau o'r Effaith ar Iechyd ..... 8

   Rhan 6 Gwasanaethau fferyllol ..... 9

   Rhan 7 Darparu toiledau ..... 9

   Rhan 8 Amrywiol a chyffredinol - troseddau sgorio hylendid bwyd: derbyniadau cosb benodedig ..... 10
4. **Goblygiadau ariannol y Bil** ..... 11

   Cyfyngiadau ar ysmygu ar dir ysgolion, tir ysbytai a meysydd chwarae cyhoeddus ..... 12

   Creu cofrestr o fanwerthwyr tybaco a chynhyrchion nicotin ..... 12

   Gwahardd rhoi tybaco neu gynhyrchion nicotin i bobl o dan 18 oed ..... 12

   Cyflwyno system drwyddedu ar gyfer triniaethau arbennig ..... 12

   Gwahardd rhoi twll mewn rhan bersonol o'r corff i bobl o dan 16 oed ..... 13

   Asesiadau o'r Effaith ar Iechyd ..... 13

   Gwasanaethau fferyllol ..... 13

   Datblygu strategaeth ar gyfer darparu toiledau cyhoeddus ..... 13
5. **Ymatebion i'r Bil** ..... 15
6. **Newidiadau i'r Bil yn ystod Cyfnod 2** ..... 17

   Mynd i'r afael â gordewdra ..... 17

   Mynd i'r afael â llygredd aer ..... 17

   Rhan 2: Tybaco a chynhyrchion nicotin, Pennod 1: Ysmygu ..... 17

   Rhan 2: Tybaco a Chynhyrchion Nicotin, Pennod 2: Manwerthwyr tybaco a chynhyrchion nicotin ..... 17

   Rhan 3: Triniaethau arbennig ..... 18

   Rhan 4: Rhoi twll mewn rhan bersonol o'r corff ..... 18

   Rhan 6: Gwasanaethau fferyllol ..... 18

   Rhan 7: Darparu toiledau ..... 18

**7. Geirfa Gymraeg ........ 19**

Termau penodol i'r Bil ........ 19

Termau deddfwriaethol cyffredinol ........ 22

# Bil Iechyd y Cyhoedd (Cymru)

## 1. Cyflwyniad

Gosodwyd **Bil Iechyd y Cyhoedd (Cymru)** gerbron y Cynulliad ar 7 Tachwedd 2016. Cyflwynwyd y Bil gan Rebecca Evans AC, Gweinidog Iechyd y Cyhoedd a Gwasanaethau Cymdeithasol ar 8 Tachwedd 2016. Dyma'r ail waith y mae Llywodraeth Cymru wedi cyflwyno bil o'r fath. Cyflwynodd y Llywodraeth flaenorol Fil Iechyd y Cyhoedd (Cymru) ym mis Mehefin 2015. Gwrthodwyd y Bil hwnnw ym mis Mawrth 2016 yng Nghyfnod 4.

Nod y Bil yw mynd i'r afael â nifer o bryderon penodol mewn perthynas ag iechyd y cyhoedd: tybaco a chynhyrchion nicotin; 'triniaethau arbennig' (aciwbigo, tyllu'r corff, electrolysis a thatŵio); rhoi twll mewn rhan bersonol o'r corff, asesiadau o'r effaith ar iechyd, gwasanaethau fferyllol; a darparu toiledau.

Anfonodd y Pwyllgor Busnes y Bil at y Pwyllgor Iechyd, Gofal Cymdeithasol a Chwaraeon. Adroddodd y Pwyllgor ar ei ystyriaeth Cyfnod 1 o egwyddorion cyffredinol y Bil ar 10 Chwefror 2017.

Cytunodd y Pwyllgor Busnes hefyd y dylid cwblhau trafodion Cyfnod 2 erbyn 7 Ebrill 2017, ar yr amod bod y Cynulliad yn cytuno ar egwyddorion cyffredinol y Bil.

Cynhaliodd y Pwyllgor Iechyd, Gofal Cymdeithasol a Chwaraeon ymgynghoriad ar egwyddorion cyffredinol y Bil, a ddaeth i ben ar 16 Rhagfyr 2016. Dechreuodd y Pwyllgor glywed tystiolaeth lafar ar 1 Rhagfyr 2016.

# 2. Cefndir

## Cymhwysedd deddfwriaethol

Dywed y Memorandwm Esboniadol (yn adran 2) fod testun y Bil yn dod o fewn y rhestr o bynciau yn Rhan 1 o Atodlen 7 i Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006, a'i fod felly o fewn cymhwysedd y Cynulliad. Mae'r Memorandwm yn rhestru'r pynciau perthnasol yn Atodlen 7 fel a ganlyn:

**Pwnc 9 'Iechyd a Gwasanaethau Iechyd':**

> *"Promotion of health. Prevention, treatment and alleviation of disease, illness, injury, disability and mental disorder. Control of disease. Family planning. Provision of health services, including medical, dental, ophthalmic, pharmaceutical and ancillary services and facilities. Clinical governance and standards of health care. Organisation and funding of national health service."*

**Pwnc 12 'Llywodraeth Leol':**

> *"…Powers and duties of local authorities and their members and officers…"*

**Pwnc 15 'Lles Cymdeithasol':**

> *"…Protection and well-being of children (including adoption and fostering) and of young adults…"*

Mae'r Memorandwm hefyd yn nodi bod Rhan 2 o'r Bil yn cynnwys darpariaethau sy'n dileu swyddogaethau cyn cychwyn Gweinidog y Goron ac sydd felly yn gofyn am gydsyniad yr Ysgrifennydd Gwladol o dan Ran 3 o Atodlen 7 i Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006. Pan gyflwynwyd y Bil, roedd trafodaethau'n mynd rhagddynt â Llywodraeth y DU, gyda'r nod o gael y cydsyniad hwnnw. Mae'r Memorandwm yn nodi bod Llywodraeth Cymru yn rhagweld y daw trafodaethau ar gydsyniad i ben yn ystod gwaith craffu Cyfnod 1 y Bil.

Nododd datganiad y Llywydd ar gymhwysedd deddfwriaethol (7 Tachwedd 2016), yn ei barn hi, mae'r Bil o fewn cymhwysedd yn gyffredinol, ond y byddai angen cydsyniad yr Ysgrifennydd Gwladol ar gyfer darpariaethau sy'n ymwneud â lefelau'r dirwyon yn adrannau 3(6), 4(6), a 14(8) a pharagraffau 6 a 9 o Atodlen 1, fel yr amlygwyd yn y Memorandwm Esboniadol. Wedi hynny, cafwyd cadarnhad fod Ysgrifennydd Gwladol Cymru wedi darparu'r caniatâd perthnasol.

## Amcanion polisi'r Bil

Nod y Bil yw bwrw ymlaen â rhai o bolisïau iechyd y cyhoedd Llywodraeth Cymru, gan gynnwys:

- hyrwyddo'r dirywiad parhaus yn nifer y plant a phobl ifanc sy'n dechrau ysmygu a gwneud ysmygu'n llai normal;
- sicrhau bod 'triniaethau arbennig' (aciwbigo, tyllu'r corff, electrolysis a thatŵio) yn cael eu rheoleiddio'n well;
- gwarchod plant a phobl ifanc rhag niweidiau iechyd posibl o roi twll mewn rhan bersonol o'r corff;
- cryfhau rôl a phwysigrwydd Asesiadau o'r Effaith ar Iechyd yng Nghymru;
- gwella'r broses o gynllunio a darparu gwasanaethau fferyllol a chryfhau eu rôl mewn perthynas ag iechyd y cyhoedd, a;

– gwella'r gwaith o gynllunio'r ddarpariaeth o doiledau cyhoeddus.

## Datblygiad y Bil

Cyhoeddwyd **Papur Gwyrdd** Llywodraeth Cymru ar iechyd y cyhoedd yn 2012, cyn cyhoeddi'r Bil hwn. Dilynodd **Papur Gwyn** ym mis Ebrill 2014, a oedd yn cyflwyno cyfres o gynigion ar gyfer deddfwriaeth sylfaenol ac is-ddeddfwriaeth. Ei fwriad oedd mynd i'r afael â materion sy'n ymwneud ag iechyd y cyhoedd, fel effaith tybaco, camddefnyddio alcohol a gordewdra. Cafodd y cynigion eu grwpio o dan dair thema allweddol:

1. **Gwella iechyd dros oes** drwy gyflwyno cofrestr genedlaethol ar gyfer manwerthwyr tybaco, cyflwyno isafswm pris fesul uned o alcohol, a datblygu safonau maethol ar gyfer lleoliadau penodol. Roedd hefyd yn gofyn am sylwadau cynnar ar ddeddfwriaeth i greu mannau di-fwg yn yr awyr agored a gwerthu tybaco ar-lein.
2. **Datblygu asedau cymunedol ar gyfer iechyd** drwy gynigion i gryfhau rôl Byrddau Iechyd Lleol wrth gynllunio gwasanaethau iechyd y cyhoedd a ddarperir gan fferyllfeydd cymunedol, a gwella'r mynediad i doiledau cyhoeddus.
3. **Rheoleiddio iechyd** drwy gynnig i gyflwyno Cofrestr Genedlaethol ar gyfer Triniaethau Arbennig er mwyn rheoleiddio safonau ar gyfer gweithgareddau fel rhoi twll cosmetig mewn rhan o'r corff a thatŵio.

Yn y Papur Gwyn, mae Llywodraeth Cymru yn nodi ei strategaeth ar gyfer deddfwriaeth iechyd y cyhoedd, sy'n cynnwys dau ddull penodol:

– ymagwedd gyffredinol tuag at ddeddfwriaeth sy'n ei gwneud yn ofynnol i gyrff cyhoeddus fynd i'r afael ag iechyd ar draws eu swyddogaethau, a adlewyrchir yn Neddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015, a;

– deddfwriaeth benodol i fynd i'r afael â phryderon penodol sy'n ymwneud ag iechyd y cyhoedd drwy Fil Iechyd y Cyhoedd.

Cyflwynodd y Llywodraeth flaenorol **Fil Iechyd y Cyhoedd (Cymru)** ym mis Mehefin 2015. Bwriadwyd i gamau gweithredu ar rai o flaenoriaethau iechyd y cyhoedd Llywodraeth Cymru, fel gordewdra ac anweithgarwch corfforol, gael eu datblygu drwy is-ddeddfwriaeth neu ddulliau eraill ac ni chawsant eu cynnwys ym Mil Iechyd y Cyhoedd (Cymru). Dywedodd y Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol ar y pryd:

> *Cafwyd awgrymiadau, er enghraifft, y dylai'r Bil fod wedi cynnwys darpariaethau penodol sy'n ymwneud â gweithgaredd corfforol ac iechyd meddwl. Rydym yn parhau i ymgysylltu â'r sectorau dan sylw i weld a oes dulliau deddfwriaethol penodol y gellir eu defnyddio i ddatblygu'r agendâu pwysig hyn, neu a yw'r cynigion mewn gwirionedd yn rhai y byddai'n well eu datblygu drwy ddatblygu polisi a chamau anneddfwriaethol.*

Roedd cynigion i gyflwyno isafswm pris fesul uned o alcohol hefyd yn absennol o'r Bil, oherwydd yr achos diweddar yn erbyn Llywodraeth yr Alban yn y Llys Ewropeaidd. Yn lle hynny, roedd hyn yn destun **Bil Iechyd y Cyhoedd (Isafbris Alcohol) (Drafft)**, a gyhoeddwyd ar gyfer ymgynghoriad ym mis Gorffennaf 2015.

Cafodd Bil Iechyd y Cyhoedd (Cymru) y Pedwerydd Cynulliad ei ystyried yng Nghyfnod 1 gan y Pwyllgor Iechyd a Gofal Cymdeithasol ar y pryd a chwblhaodd hefyd Gyfnodau diwygio 2 a 3. Cafodd ei wrthod gan y Cynulliad yng Nghyfnod 4 ar 16 Mawrth 2016.

Yn gynnar yn y Pumed Cynulliad, nododd Llywodraeth Cymru ei bwriad i ailgyflwyno Bil Iechyd y Cyhoedd. Byddai hyn ar ffurf y Bil blaenorol fel y'i diwygiwyd yng Nghyfnod 3, ond heb yr adrannau sy'n cyfyngu ar ddefnyddio sigaréts electronig mewn mannau cyhoeddus caeedig. Fel y cyfryw, cafodd Bil Iechyd y Cyhoedd (Cymru) ei gyflwyno ym mis Tachwedd 2016 yn nodi cyfres o gynigion penodol yn y meysydd ar wahân a ganlyn o bolisi iechyd y cyhoedd:

- Mae Rhan 2 o'r Bil yn ymwneud â chynnyrch tybaco a nicotin ac yn cynnwys nifer o elfennau: ailddatgan cyfyngiadau ar ysmygu mewn gweithleoedd a mannau cyhoeddus caeedig a sylweddol gaeedig, a rhoi pŵer i Weinidogion Cymru wneud rheoliadau i ymestyn y cyfyngiadau ar ysmygu o ran cerbydau neu eiddo ychwanegol; gosod cyfyngiadau ar ysmygu ar dir ysgolion, ar dir ysbytai ac mewn meysydd chwarae cyhoeddus; creu cofrestr genedlaethol o fanwerthwyr tybaco a chynhyrchion nicotin; ychwanegu at y troseddau sy'n cyfrannu at Orchymyn Mangre o dan Gyfyngiad, a; gwahardd trosglwyddo tybaco/cynhyrchion nicotin i bobl o dan 18 oed.
- Mae Rhan 3 yn creu cynllun trwyddedu gorfodol ar gyfer ymarferwyr a busnesau sy'n darparu 'triniaethau arbennig', sef aciwbigo, tyllu'r corff, electrolysis a thatŵio.
- Mae Rhan 4 yn gwahardd rhoi twll mewn rhan bersonol o'r corff ar gyfer pobl o dan 16 oed.
- Mae Rhan 5 yn cyflwyno'r gofyniad gorfodol i gynnal Asesiadau o'r Effaith ar Iechyd mewn amgylchiadau penodol.
- Mae Rhan 6 o'r Bil yn newid sut y mae Byrddau Iechyd yn gwneud penderfyniadau am wasanaethau fferyllol fel bod y rhain yn seiliedig ar asesiadau o angen fferyllol yn eu hardaloedd.
- Mae Rhan 7 yn ei gwneud yn ofynnol i awdurdodau lleol baratoi strategaethau toiledau lleol yn seiliedig ar anghenion eu cymunedau ar gyfer darparu, a chael mynediad at, doiledau cyhoeddus.
- Mae Rhan 8 o'r Bil yn galluogi 'awdurdod bwyd' o dan Ddeddf Sgorio Hylendid Bwyd (Cymru) 2013 i gadw derbynebau cosb benodedig yn deillio o droseddau dan y Ddeddf honno, er mwyn gorfodi'r cynllun sgorio hylendid bwyd.

# 3. Bil Iechyd y Cyhoedd (Cymru): crynodeb o ddarpariaethau

Mae'r Bil yn cynnwys wyth rhan, 124 o adrannau a phedair atodlen.

## Rhan 1 Trosolwg

Mae Rhan 1 yn rhoi trosolwg o'r darpariaethau yn y Bil.

## Rhan 2 Tybaco a Chynhyrchion Nicotin

### Pennod 1 Ysmygu

Mae'r Bil yn bwriadu hyrwyddo'r dirywiad parhaus yn nifer y plant a phobl ifanc sy'n dechrau ysmygu a sicrhau y caiff ysmysgu ei wneud yn llai normal.

Mae Bil Iechyd y Cyhoedd (Cymru) yn ailddatgan gyda mân newidiadau darpariaethau di-fwg **Deddf Iechyd 2006** i'r graddau y mae'n gymwys i Gymru, sy'n gwneud mannau cyhoeddus a gweithleoedd caeedig a sylweddol gaeedig yn ddi-fwg.

At hynny, mae'r Bil yn cyfyngu ar ysmygu ar dir ysbytai ac ysgolion, yn eithrio mewn ardaloedd lle mae'r rheolwyr wedi nodi'n benodol ei fod yn fan ysmygu. Mae hefyd yn cael ei gyfyngu mewn meysydd chwarae cyhoeddus o fewn ffiniau'r maes chwarae wedi'u marcio'n glir neu, os nad ydynt wedi'u marcio'n glir, o fewn pum metr o offer maes chwarae.

Mae'r Bil yn cynnwys pwerau i ychwanegu mangreoedd di-fwg ychwanegol drwy gyfrwng rheoliadau, ac i wneud darpariaeth ar gyfer cerbydau di-fwg, os bodlonir Gweinidogion Cymru bod gwneud hynny yn 'debygol o gyfrannu tuag at hybu iechyd pobl Cymru'.

Gall fod yn ofynnol i berson sy'n ysmygu tybaco mewn ardal ddi-fwg neu mewn cerbyd di-fwg dalu dirwy, hyd at ac yn cynnyws lefel 1 (£200) ar y raddfa safonol. Bydd yn ofynnol i berson (er enghraifft, person sy'n rheoli'r fangre) a geir yn euog o fethu â chymryd camau rhesymol i atal ysmygu ar fangre ddi-fwg dalu dirwy, hyd at ac yn cynnwys lefel 4 (£2,500) ar y raddfa safonol.

Rhaid i berson sy'n meddiannu neu'n rheoli mangre sicrhau y caiff arwyddion eu harddangos yn y fangre honno sy'n dangos eu bod yn fangreoedd di-fwg. Bydd yn ofynnol i berson a geir yn euog o fethu â chydymffurfio dalu dirwy, hyd at ac yn cynnwys lefel 3 (£1,000) ar y raddfa safonol.

Drwy Reoliadau, caiff awdurdodau gorfodi eu dynodi i orfodi darpariaethau Rhan 2 Pennod 1 a chaiff swyddogion awdurdodedig eu penodi gan yr awdurdod gorfodi. Caiff swyddog awdurdodedig bwerau i fynd i mewn i fangre (neu gerbyd) yng Nghymru os credir fod trosedd wedi, neu wrthi'n, cael ei chyflawni.

Bydd swyddogion awdurdodedig yn gallu cyflwyno hysbysiadau cosb benodedig ar gyfer rhai troseddau. Mae'r hysbysiad cosb benodedig hwn yn caniatáu i'r person a gyflawnodd y drosedd osgoi collfarn am y drosedd drwy dalu cosb benodedig. Caiff swm y gosb ei nodi yn y Rheoliadau. Fodd bynnag, ar ôl derbyn hysbysiad cosb benodedig, gall y person a gyflawnodd y drosedd ofyn am gael ei roi ar brawf yn hytrach na thalu'r hysbysiad cosb.

## Pennod 2 Manwerthwyr tybaco a chynhyrchion nicotin a Phennod 3 Atal gwerthu tybaco a chynhyrchion nicotin

Nod y Bil yw atgyfnerthu pwysigrwydd diogelu pobl dan 18 oed rhag y niwed sy'n gysylltiedig â defnyddio tybaco a nicotin. Mae'r Bil yn cynnwys darpariaethau i sefydlu cofrestr genedlaethol o fanwerthwyr tybaco a chynhyrchion nicotin a darpariaethau i wella'r drefn ar gyfer Gorchymyn Mangre o dan Gyfyngiad. Bwriedir i'r gofrestr alluogi awdurdodau lleol i orfodi deddfwriaeth o ran tybaco a chynhyrchion nicotin, er enghraifft mewn perthynas ag oedran gwerthu ac arddangos cynhyrchion tybaco. Defnyddir y gofrestr hefyd i ddosbarthu gwybodaeth a chanllawiau i fanwerthwyr.

Bydd yn rhaid i'r holl fanwerthwyr yng Nghymru sy'n gwerthu naill ai cynhyrchion tybaco neu gynhyrchion nicotin gofrestru gydag Awdurdod Cofrestru i gael caniatâd i werthu'r cynhyrchion hyn. Caiff yr Awdurdod Cofrestru ei nodi yn y Rheoliadau (a allai fod, er enghraifft, yn awdurdod lleol neu gorff arall) i reoli'r gofrestr genedlaethol ar gyfer Cymru gyfan.

Caiff un ffurflen gais ei chyflwyno fesul person i gwmpasu pob mangre lle caiff y cynhyrchion hyn eu gwerthu a bydd taliad cyfatebol[1] yn dod gyda'r ffurflen gais, a fydd yn cyfrannu at gostau gweinyddol cyffredinol y gofrestr. Rhoddir dyletswydd ar y person cofrestredig i roi gwybod i'r Awdurdod Cofrestru am unrhyw newidiadau mewn amgylchiadau er mwyn sicrhau bod y gofrestr yn gyfredol.

Rhaid i'r Awdurdod Cofrestru ganiatáu cais oni bai bod gan fangre neu berson Orchymyn Mangre o dan Gyfyngiad neu Orchymyn Gwerthu o dan Gyfyngiad[2]. Ni chaiff mangre ei chynnwys ar y gofrestr hyd nes bod y Gorchymyn Mangre o dan Gyfyngiad neu'r Gorchymyn Gwerthu o dan Gyfyngiad wedi dod i ben. Mae'r Bil yn rhoi pwerau i Weinidogion Cymru gynnwys troseddau tybaco eraill mewn Gorchymyn Mangre o dan Gyfyngiad, cyn belled â'u bod yn gosb lefel 4 o leiaf a'i bod yn drosedd sy'n ymwneud â chyflenwi, gwerthu, cludo, arddangos, cynnig i werthu, hysbysebu neu feddu ar dybaco neu gynhyrchion nicotin.

Rhaid i'r Awdurdod Cofrestru gyhoeddi rhestr sy'n nodi enw pob person cofrestredig a'u mangreoedd.

Bydd yn drosedd i fangre yng Nghymru werthu tybaco neu gynhyrchion nicotin os nad ydynt ar y gofrestr genedlaethol. Nid yw'r ddirwy ar gyfer cynnal busnes tybaco neu fusnes nicotin heb ei gofrestru wedi'i chyfyngu gan unrhyw lefelau ar y raddfa safonol a chaiff ei dyfarnu ar swm y ddirwy. Bydd hefyd yn drosedd os yw person yn cario rhywbeth ar fangre tybaco/nicotin ar wahân i rywbeth sydd wedi'i gynnwys yn nghofnod y person yn y gofrestr, neu os bydd person yn methu â hysbysu'r Awdurdod Cofrestru o newidiadau yn ei amgylchiadau - bydd person a geir yn euog o'r troseddau hyn yn atebol am ddirwy hyd at ac yn cynnwys lefel 2 (£500) ar y raddfa safonol.

Bydd awdurdodau lleol yn gorfodi'r troseddau. Caiff swyddogion awdurdodau lleol bwerau i fynd i mewn i fangre yng Nghymru os credir fod trosedd wedi, neu wrthi'n, cael ei chyflawni. Bydd unrhyw berson sy'n rhwystro swyddog awdurdodedig yn fwriadol yn cyflawni trosedd ac, os canfyddir ei fod yn euog, bydd yn rhaid iddo dalu dirwy, hyd at ac yn cynnwys lefel 3 (£1,000) ar y raddfa safonol.

Pan fo swyddog awdurdodedig o'r farn bod trosedd wedi'i chyflawni (ar wahân i drosedd o rwystro swyddog awdurdodedig), gall roi hysbysiad cosb benodedig i'r person hwnnw am y drosedd honno.

---

[1] Yn ôl y Datganiad o Fwriad Polisi sy'n cyd-fynd â'r Bil, bydd y ffi gofrestru yn £30 ar gyfer y fangre gyntaf, ac yn £10 arall am bob mangre ychwanegol.

[2] Mae Gorchymyn Mangre o dan Gyfyngiad yn gwahardd gwerthu o fangre unrhyw gynhyrchion tybaco i unrhyw berson, gan y busnes neu unrhyw un o'i staff am gyfnod o hyd at flwyddyn. Mae Gorchymyn Gwerthu o dan Gyfyngiad yn gwahardd person penodedig sydd wedi'i gael yn euog o drosedd tybaco rhag gwerthu unrhyw gynnyrch tybaco i unrhyw berson ac o gael unrhyw swyddogaeth reoli sy'n ymwneud â gwerthu cynhyrchion tybaco am gyfnod o hyd at flwyddyn.

Mae gan swyddogion awdurdodedig y pŵer i wneud pryniannau prawf at ddibenion gorfodi.

### Pennod 4 Rhoi tybaco ac ati i bobl ifanc o dan 18 oed

Nod y Bil yw lleihau'r risg o bobl o dan 18 oed yn cael mynediad at y cynhyrchion hyn drwy werthiannau o bell, megis drwy werthu ar y rhyngrwyd neu dros y ffôn.

Mae'n drosedd os bydd unigolyn yn rhoi tybaco, papurau sigaréts neu gynhyrchion nicotin yn fwriadol i berson ifanc o dan 18 oed sydd heb oedolyn gydag ef. Cyfrifoldeb y person sy'n rhoi'r tybaco a'r cynhyrchion nicotin yw asesu'n weledol a yw'r person dros 18 oed, a gwirio'r oedran pan fo'n briodol. Byddai'n ofynnol i berson a geir yn euog o'r drosedd hon dalu dirwy, hyd at ac yn cynnwys lefel 4 (£2,500) ar y raddfa safonol.

Bydd yn cyfrif fel trosedd dim ond os yw'r person sy'n dosbarthu'r tybaco a/neu gynhyrchion nicotin yn ymwybodol fod y person o dan 18 oed. Ni fyddai gwasanaethau post fel y Post Brenhinol, neu wasanaethau negesydd lle mae'r negesydd yn dosbarthu pecyn gyda chyfeiriad sydd wedi'i amgáu'n llawn yn cael eu cwmpasu gan y drosedd.

## Rhan 3 Triniaethau arbennig

Mae triniaethau arbennig, fel y'u disgrifir yn y Bil, yn cynnwys aciwbigo, tyllu'r corff, electrolysis a thatŵio. Diben y cynigion yw sicrhau pan fo triniaethau arbennig yn cael eu gwneud yng Nghymru, eu bod yn cael eu gwneud mewn ffordd nad ydynt yn niweidiol i iechyd. Nod y Bil yw gwella safonau mewn perthynas â darparu triniaethau arbennig, a sicrhau ymagwedd well a chyson i reoleiddio'r triniaethau hyn ledled Cymru.

Bydd y Bil yn creu cynllun trwyddedu gorfodol ar gyfer ymarferwyr a busnesau sy'n darparu triniaethau arbennig yng Nghymru. Bydd yn drosedd i ymarferydd wneud unrhyw driniaethau arbennig heb drwydded neu wneud unrhyw driniaethau o fangre neu gerbyd nad yw wedi'i gymeradwyo. Bydd trosedd o'r fath yn agored i ddirwy anghyfyngedig.

Caiff y meini prawf trwyddedu a'r amodau trwyddedu gorfodol eu nodi er mwyn sicrhau bod safonau ymarfer a gorfodi triniaethau arbennig yn gyson ledled Cymru. Caiff y rhain eu nodi mewn rheoliadau a fydd yn destun ymgynghoriad. Rhaid i'r meini prawf trwyddedu ei gwneud yn ofynnol i'r ymgeisydd ddangos gwybodaeth am reoli heintiau, cymorth cyntaf a'u rhwymedigaethau cyfreithiol. Rhaid i'r amodau trwyddedu gorfodol, sy'n nodi'r gofynion y mae'n rhaid i ddeiliad trwydded eu bodloni er mwyn cadw ei drwydded, gynnwys amodau yn ymwneud â chadarnhau oedran, arferion rheoli heintiau, safonau hylendid, cymorth cyntaf, cyngor cyn ac ar ôl y driniaeth a chadw cofnodion. Rhaid i'r amodau hefyd wahardd deiliad trwydded rhag darparu triniaeth arbennig ar unigolyn sydd dan ddylanwad diod, cyffuriau neu sylwedd arall, neu sy'n ymddangos felly.

Bydd awdurdodau lleol yn gyfrifol am orfodi'r gofynion trwyddedu ac am gadw'r gofrestr gyhoeddus yn gyfredol.

Mae'r Bil yn darparu ar gyfer rhai eithriadau. Er enghraifft, ni fydd yn ofynnol i aelodau o alwedigaeth benodol, fel meddygon, deintyddion neu nyrsys, gael trwydded i ddarparu triniaethau arbennig, oni bai bod rheoliadau'n darparu fel arall. Mae darpariaeth yn y Bil i eithrio proffesiynau gofal iechyd ymhellach rhag y gofynion trwyddedu mewn perthynas â'r gweithdrefnau a nodwyd.

Er mwyn sicrhau bod y ddeddfwriaeth yn parhau'n gyfredol wrth i fathau newydd o driniaethau gael eu datblygu, mae'r Bil yn cynnwys darpariaeth i ddiwygio'r rhestr o driniaethau arbennig. Caiff hyn ei wneud drwy is-ddeddfwriaeth, yn ddarostyngedig i'r weithdrefn gadarnhaol.

## Rhan 4 Rhoi twll mewn rhan bersonol o'r corff

Prif ddiben y darpariaethau hyn yn y Bil yw gwarchod plant a phobl ifanc rhag niweidiau iechyd posibl o gael twll mewn rhan bersonol o'r corff, ac osgoi amgylchiadau ble gall plant a phobl ifanc fod mewn sefyllfa lle maent, o bosibl, yn agored i niwed.

Mae'r Bil yn diffinio twll mewn rhan bersonol o'r corff fel tyllu croen neu bilenni mwcaidd yr anws, y fron (gan gynnwys y deth a'r areola), y ffolen, yr hollt enedigol, y pidyn (gan gynnwys y blaengroen), y perinëwm, y mons pubis, y ceillgwd, y tafod neu'r fylfa.

O dan y Bil, bydd yn drosedd i rywun roi twll mewn rhan bersonol o'r corff ar gyfer person sydd o dan 16 oed, neu wneud trefniadau ar gyfer hynny. Mae hyn yn golygu, hyd yn oed os nad yw person ifanc wedi cael twll mewn rhan bersonol o'r corff mewn gwirionedd, y byddai gwneud trefniadau ar gyfer y driniaeth yn cael ei ystyried yn drosedd. Bydd person a geir yn euog o drosedd o'r fath yn agored i ddirwy anghyfyngedig.

Mae'r Bil yn darparu ar gyfer amddiffyniad 'diwydrwydd dyladwy' ar gyfer person sy'n rhoi twll neu'n cynnig rhoi twll mewn rhan bersonol o'r corff, os ydynt yn cymryd camau rhesymol i sicrhau bod y person sy'n gofyn am y driniaeth dros 16 oed, fel gwirio eu hoedran.

Ni fydd y ffaith bod person o dan 16 oed wedi rhoi ei ganiatâd, neu bod rhiant neu warcheidwad wedi rhoi caniatâd ar ei ran, yn amddiffyniad.

Bydd yn ddyletswydd ar awdurdodau lleol i gymryd camau gorfodi mewn perthynas â'r darpariaethau, gan gynnwys trefnu erlyniadau, ymchwilio i gwynion a chymryd camau eraill i leihau nifer y troseddau, megis cyfathrebu gydag ymarferwyr tyllu'r corff a'u haddysgu, neu gynnal arolygiadau pryniant prawf er mwyn asesu cydymffurfiaeth.

Drwy gymryd camau gorfodi, rhaid i awdurdodau lleol ymgynghori â'r heddlu fel sy'n briodol.

Mae rhoi twll mewn rhan bersonol o'r corff wedi'i gwmpasu gan ddiffiniad y Bil o dyllu'r corff, ac felly mae hefyd yn ddarostyngedig i ddarpariaethau Rhan 3 o'r Bil (Triniaethau Arbennig).

## Rhan 5 Asesiadau o’r Effaith ar Iechyd

Prif ddiben y darpariaethau hyn yn y Bil yw cryfhau sefyllfa Asesiadau o'r Effaith ar Iechyd yng Nghymru. Drwy wneud y defnydd o Asesiadau o'r Effaith ar Iechyd yn orfodol mewn amgylchiadau penodedig, a'u cymhwyso'n gyson, y bwriad yw sicrhau bod yr effeithiau posibl yn y dyfodol ar iechyd a lles cymunedau neu unigolion yn cael eu hystyried wrth wneud penderfyniadau.

Diffinnir Asesiad o’r Effaith ar Iechyd yn asesiad o effaith debygol, yn y tymor byr a'r tymor hir, cam neu benderfyniad arfaethedig ar iechyd corfforol ac iechyd meddwl pobl Cymru neu ar iechyd corfforol ac iechyd meddwl rhai o bobl Cymru.

Caiff y darpariaethau ar gyfer y manylion technegol, a'r amgylchiadau a sut y cynhelir Asesiadau o'r Effaith ar Iechyd, eu nodi mewn rheoliadau. Rhaid i gyrff cyhoeddus gyhoeddi Asesiadau o'r Effaith ar Iechyd ac ystyried eu canfyddiadau wrth arfer y swyddogaethau hynny y cynhaliwyd yr asesiad mewn cysylltiad â hwy.

Er mwyn sicrhau eu bod yn cyd-fynd â Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol, bydd pob un o'r cyrff cyhoeddus sy’n cael eu cynnwys yn y Ddeddf hefyd yn cael eu cynnwys dan y gofynion i gynnal asesiad o’r effaith ar iechyd. At hynny, mae Bil Iechyd y Cyhoedd (Cymru) hefyd yn cynnwys darpariaeth i ddiwygio'r rhestr o gyrff cyhoeddus, er mwyn rhoi hyblygrwydd i ddiweddaru'r rhestr o

gyrff y mae angen iddynt gynnal Asesiad o'r Effaith ar Iechyd heb orfod troi at ddeddfwriaeth sylfaenol pellach.

## Rhan 6 Gwasanaethau fferyllol

Nod y Bil yw gwella'r broses o gynllunio a darparu gwasanaethau fferyllol, a chryfhau rôl fferyllfeydd cymunedol yn hyrwyddo a diogelu iechyd y cyhoedd. Mae'n ceisio annog fferyllfeydd i addasu ac ehangu eu gwasanaethau, y tu hwnt i'w rôl weinyddu draddodiadol, mewn ymateb i anghenion lleol.

Bydd y Bil yn ei gwneud yn ofynnol i Fyrddau Iechyd baratoi a chyhoeddi 'asesiadau o anghenion fferyllol' ar gyfer eu hardaloedd. Rhaid parhau i adolygu'r asesiadau hyn.

Caiff y darpariaethau ynghylch amserlenni, yr amgylchiadau lle dylai Bwrdd Iechyd adolygu ei asesiad a chyhoeddi asesiadau, eu nodi yn y rheoliadau. Gall y rheoliadau hefyd wneud darpariaeth arall ynghylch paratoi, cyhoeddi ac adolygu asesiadau o anghenion fferyllol gan gynnwys, er enghraifft eu cynnwys, ymgynghori neu ofynion gweithdrefnol.

Mae'r Bil yn diwygio'r prawf 'rheoli mynediad' cyfredol fel bod penderfyniadau ar geisiadau i ymuno â rhestr fferyllol Bwrdd Iechyd yn seiliedig ar p'un a yw'r cais yn diwallu'r angen/anghenion a nodir yn yr asesiad o anghenion fferyllol lleol. Gall y rheoliadau wneud darpariaeth ar gyfer y weithdrefn y mae'n rhaid i Fyrddau Iechyd ei dilyn wrth ymdrin â cheisiadau a'r materion y mae'n rhaid iddynt eu hystyried.

Pan nad yw Bwrdd Iechyd yn cael ceisiadau i ddarparu'r gwasanaethau fferyllol gofynnol (fel y nodir yn ei asesiad o anghenion fferyllol), gall wahodd ceisiadau i'w cynnwys ar ei restr fferyllol.

O dan y Bil, bydd Byrddau Iechyd hefyd yn gallu tynnu fferyllwyr oddi ar eu rhestrau yn dilyn achosion difrifol a/neu reolaidd o fynd yn groes i delerau ac amodau gwasanaeth.

## Rhan 7 Darparu toiledau

Nod y Bil yw gwella'r broses o gynllunio ar gyfer darparu toiledau cyhoeddus drwy sicrhau bod awdurdodau lleol yn asesu anghenion eu cymunedau mewn perthynas â thoiledau, ac yna defnyddio dull 'strategol a thryloyw' i ddiwallu'r anghenion hynny.

Bydd yn ofynnol i bob awdurdod lleol yng Nghymru baratoi a chyhoeddi strategaeth toiledau lleol ar gyfer ei ardal. Bydd yn ofynnol i awdurdodau lleol ymgynghori â phartïon sydd â diddordeb ar eu strategaethau drafft. Rhaid adolygu strategaethau o leiaf unwaith ym mhob tymor llywodraeth leol. Os bydd yr adolygiad yn awgrymu bod yn rhaid diwygio'r strategaeth, rhaid i strategaeth wedi'i diweddaru gael ei chyhoeddi.

Rhaid i'r strategaeth gynnwys asesiad o angen y gymuned am doiledau (gan gynnwys cyfleusterau newid ar gyfer babanod a chyfleusterau newid ar gyfer pobl anabl) a'r camau a gymerir gan yr awdurdod lleol i ddiwallu'r angen hwn.

Ni fydd y ddyletswydd i baratoi strategaeth toiledau lleol ynddi ei hun yn ei gwneud yn ofynnol i awdurdodau lleol ddarparu a chynnal toiledau cyhoeddus. Rhagwelir y bydd awdurdodau lleol yn ystyried 'amrywiaeth lawn o opsiynau' ar gyfer gwneud cyfleusterau ar gael i'r cyhoedd.

Rhaid i Lywodraeth Cymru gyflwyno canllawiau i awdurdodau lleol ynghylch paratoi, adolygu neu gyhoeddi strategaethau. Rhaid i'r canllawiau sy'n ofynnol gan y Bil hefyd wneud darpariaeth ynglŷn â chodi ymwybyddiaeth y cyhoedd o doiledau sydd ar gael i'w defnyddio gan y cyhoedd.

## Rhan 8 Amrywiol a chyffredinol - troseddau sgorio hylendid bwyd: derbyniadau cosb benodedig

Mae Deddf Sgorio Hylendid Bwyd (Cymru) 2013 yn ei gwneud yn ofynnol i fusnesau bwyd Cymru gael eu sgorio ar sail eu safonau hylendid bwyd, ac arddangos y sgôr lle gall y cwsmeriaid ei weld yn rhwydd, er enghraifft wrth y fynedfa.

'Awdurdodau bwyd' (awdurdodau lleol yn bennaf) sy'n gyfrifol am orfodi'r cynllun sgorio hylendid bwyd yng Nghymru. Mae Deddf 2013 yn caniatáu i awdurdodau bwyd gyhoeddi hysbysiadau cosb benodedig i fusnesau bwyd am beidio â chydymffurfio â'r cynllun.

Mae'r Bil yn gwneud mân ddiwygiad technegol i Ddeddf Sgorio Hylendid Bwyd (Cymru) fel bod yn rhaid i'r derbyniadau o hysbysiadau cosb benodedig am beidio â chydymffurfio â'r cynllun sgorio hylendid bwyd gael eu defnyddio gan awdurdodau bwyd (awdurdodau lleol yn bennaf) i sicrhau cydymffurfiad â'r cynllun. Bydd hyn yn alinio'r Ddeddf Sgorio Hylendid Bwyd (Cymru) â darpariaethau Bil Iechyd y Cyhoedd (Cymru), sy'n nodi bod yn rhaid i dderbyniadau o hysbysiadau cosb benodedig a wneir o dan Benodau 1 a 2 o Ran 1 gael eu defnyddio gan awdurdodau gorfodi i gefnogi'r dyletswyddau newydd a osodir arnynt gan y penodau hyn yn y Bil.

# 4. Goblygiadau ariannol y Bil

Mae'r Asesiad Effaith Rheoleiddiol yn nodi costau a manteision pob opsiwn a ystyrir ym mhob rhan o'r Bil. Nodir y rhain isod yn nhabl 1, ac maent yn **dangos costau ychwanegol yn codi o'r Bil o £6.6 miliwn rhwng 2017-18 a 2021-22, a fydd yn cael ei wrthbwyso gan fanteision o £7.7 miliwn o adran Gwasanaethau Fferyllol y Bil.**

**Tabl 1: Costau a manteision ychwanegol y Bil rhwng 2017-18 a 2021-22**

| Costau/manteision | 2017-18 | 2018-19 | 2019-20 | 2020-21 | 2021-22 | Total |
|---|---|---|---|---|---|---|
| **Cyfyngiadau ar ysmygu ar dir ysgolion, tir ysbytai a meysydd chwarae cyhoeddus** | | | | | | |
| Llywodraeth Cymru | 63,900 | 0 | 0 | 3,000 | 0 | 66,900 |
| Awdurdodau lleol/ysgolion/BILlau/ysbytai | 49,100 | 0 | 0 | 24,600 | 0 | 73,700 |
| Awdurdodau lleol | 89,300 | 4,800 | -6,200 | -2,600 | -2,600 | 82,700 |
| Ysgolion annibynnol | 6,900 | 0 | 0 | 0 | 0 | 6,900 |
| Byrddau Iechyd Lleol | 18,800 | 0 | 0 | 0 | 0 | 18,800 |
| Ysbytai Annibynnol | 3,600 | 0 | 0 | 0 | 0 | 3,600 |
| Y cyhoedd | 5,100 | 6,000 | 6,200 | 2,600 | 2,600 | 22,500 |
| **Cyfanswm y costau/manteision** | **236,700** | **10,800** | **0** | **27,600** | **0** | **275,100** |
| **Cofrestr manwerthwyr tybaco a chynhyrchion nicotin** | | | | | | |
| Llywodraeth Cymru | 26,700 | 9,000 | 0 | 0 | 0 | 35,700 |
| Awdurdodau lleol | 6,600 | -116,500 | 15,000 | 16,500 | 15,000 | -63,400 |
| Manwerthwyr tybaco | 0 | 250,900 | 11,100 | 11,100 | 11,100 | 284,200 |
| **Cyfanswm y costau/manteision** | **33,300** | **143,400** | **26,100** | **27,600** | **26,100** | **256,500** |
| **Rhoi tybaco a chynhyrchion nicotin i bersonau o dan 18 oed** | | | | | | |
| Llywodraeth Cymru | 17,200 | 0 | 0 | 1,500 | 0 | 18,700 |
| Awdurdodau lleol | 126,300 | 72,100 | 72,100 | 72,100 | 72,100 | 414,700 |
| Manwerthwyr tybaco | 83,700 | 1,000 | 1,000 | 42,400 | 1,000 | 129,100 |
| **Cyfanswm y costau/manteision** | **227,200** | **73,100** | **73,100** | **116,000** | **73,100** | **562,500** |
| **Triniaethau arbennig** | | | | | | |
| Llywodraeth Cymru | 62,100 | -2,500 | -2,500 | 3,400 | -2,500 | 58,000 |
| Awdurdodau lleol | 61,800 | 248,400 | 192,000 | 175,700 | 161,200 | 839,100 |
| Busnesau sy'n cyflawni triniaethau arbennig | 0 | 433,500 | 79,800 | 74,800 | 303,800 | 891,900 |
| Ymarferwyr heb eu cofrestru | 0 | 50,000 | 45,000 | 40,000 | 35,000 | 170,000 |
| **Cyfanswm y costau/manteision** | **123,900** | **729,400** | **314,300** | **293,900** | **497,500** | **1,959,000** |
| **Tyllu personol** | | | | | | |
| Llywodraeth Cymru | 18,700 | 0 | 0 | 1,300 | 0 | 20,000 |
| Awdurdodau lleol | 76,800 | 76,800 | 38,400 | 38,400 | 38,400 | 268,800 |
| Busnesau sy'n cyflawni tyllu personol | 155,200 | 107,800 | 107,800 | 131,500 | 107,800 | 610,100 |
| **Cyfanswm y costau/manteision** | **250,200** | **184,600** | **146,200** | **171,200** | **146,200** | **898,900** |
| **Asesiadau o'r Effaith ar Iechyd** | | | | | | |
| Llywodraeth Cymru | 0 | 17,700 | 14,000 | 18,000 | 27,800 | 77,500 |
| Iechyd Cyhoeddus Cymru | 0 | 16,100 | 3,000 | 3,000 | 10,800 | 32,900 |
| Cyrff cyhoeddus | 0 | 73,200 | 110,000 | 127,600 | 143,300 | 454,100 |
| **Cyfanswm y costau/manteision** | **0** | **107,000** | **127,000** | **148,600** | **181,900** | **564,500** |
| **Newid darpariaeth gwasanaethau fferyllol** | | | | | | |
| Llywodraeth Cymru | 0 | 18,100 | -31,200 | -31,200 | -31,200 | -75,500 |
| Byrddau Iechyd Lleol | 0 | 210,100 | 427,100 | 427,100 | 427,100 | 1,491,400 |
| Contractwyr | 0 | 0 | 77,100 | 77,100 | 77,100 | 231,300 |
| Manteision iechyd i'r cyhoedd | 0 | 0 | -2,580,000 | -2,580,000 | -2,580,000 | -7,740,000 |
| **Cyfanswm y costau/manteision** | **0** | **228,200** | **-2,107,000** | **-2,107,000** | **-2,107,000** | **-6,092,800** |
| **Strategaeth darparu toiledau cyhoeddus** | | | | | | |
| Llywodraeth Cymru | 9,000 | 0 | 0 | 0 | 1,500 | 10,500 |
| Awdurdodau lleol | 0 | 380,600 | 8,300 | 44,900 | 8,300 | 442,100 |
| **Cyfanswm y costau/manteision** | **9,000** | **380,600** | **8,300** | **44,900** | **9,800** | **452,600** |
| **Cyfanswm costau/manteision ychwanegol y Bil** | **880,300** | **1,857,100** | **-1,412,000** | **-1,277,200** | **-1,172,400** | **-1,124,200** |

Ffynhonnell: Cyfrifiadau'r Gwasanaeth Ymchwil ar sail Memorandwm Esboniadol Cynulliad Cenedlaethol Cymru ar Fil Iechyd y Cyhoedd (Cymru)

## Cyfyngiadau ar ysmygu ar dir ysgolion, tir ysbytai a meysydd chwarae cyhoeddus

**Amcangyfrifir fod yr adran hon o'r Bil yn creu costau ychwanegol o £275,000 rhwng 2017-18 a 2021-22**. Bydd hyn yn cynnwys costau ychwanegol o ryw £83,000 i awdurdodau lleol. Bydd arwyddion yn costio £19,000 i'r Byrddau Iechyd Lleol, £7,000 i ysgolion annibynnol a £3,500 i ysbytai annibynnol. At hynny, bydd y cyrff hyn yn ysgwyddo costau o £74,000 wrth adolygu'r ddeddfwriaeth o'i chymharu â'u polisïau ac wrth ddarllen canllawiau, tra bydd Llywodraeth Cymru yn wynebu costau o £67,000 ar gyfathrebu, canllawiau a hyfforddi. Caiff costau'r cyhoedd wrth dalu hysbysiadau cosb benodedig a dirwyon eu talu i'r awdurdodau lleol, felly mae'r rhain wedi'u cydbwyso yn erbyn y costau a ysgwyddir gan yr awdurdodau lleol.

## Creu cofrestr o fanwerthwyr tybaco a chynhyrchion nicotin

Mae'r elfen hon o'r Bil yn creu cofrestr genedlaethol y mae'n rhaid i fanwerthwyr tybaco a chynhyrchion nicotin gael eu cofrestru arni. **Mae'r costau ychwanegol a nodir yn yr Asesiad Effaith Rheoleiddiol yn gymharol fach, sef £256,500 rhwng 2017-18 a 2021-22, ar ôl ystyried yr arbedion.** Bydd manwerthwyr yn wynebu ychydig o dan £285,000 o gostau ychwanegol yn ystod y cyfnod hwn, tra bydd awdurdodau lleol yn arbed tua £63,000 am fod refeniw ffioedd yn talu am gostau gweinyddol ychwanegol y cynllun. Fodd bynnag, nid yw'r Asesiad Effaith Rheoleiddiol yn cynnwys amcangyfrif o gostau gorfodi'r awdurdodau lleol. Bydd Llywodraeth Cymru hefyd yn gweld costau ychwanegol bach o ychydig dros £35,000 ar ddatblygu'r gofrestr, cyfathrebu a chyhoeddusrwydd.

## Gwahardd rhoi tybaco neu gynhyrchion nicotin i bobl o dan 18 oed

Yn gyffredinol, **amcangyfrifir fod yr adran hon o'r Bil yn costio ychydig dros £560,000 yn ychwanegol rhwng 2017-18 a 2021-22.** Awdurdodau lleol fydd yn ysgwyddo'r rhan fwyaf o'r costau hyn, gan dalu ychydig o dan £415,000 o gostau ychwanegol, yn bennaf ar bryniannau prawf gan adrannau safonau masnach ac ar gostau staff. At hynny, bydd manwerthwyr yn mynd i gostau o ryw £130,000 i ddatblygu telerau ac amodau a pholisïau ar gyflenwi cynhyrchion tybaco, a bydd Llywodraeth Cymru yn ysgwyddo costau ychwanegol o ychydig o dan £20,000 ar hyfforddiant a chanllawiau

## Cyflwyno system drwyddedu ar gyfer triniaethau arbennig

Yr elfen hon o'r Bil sydd â'r swm mwyaf o gostau ychwanegol o blith y gwahanol rannau o'r Bil, sef ychydig o dan £2 filiwn dros y cyfnod 2017-18 i 2021-22. Rhennir y costau hyn yn bennaf rhwng ymarferwyr cofrestredig ac anghofrestredig (£1.1 miliwn) ac awdurdodau lleol (£840,000).

Bydd y costau ychwanegol i awdurdodau lleol yn cynnwys y rhai am rwystro gwaith sydd heb ei drwyddedu, cyhoeddi Hysbysiadau Camau Adfer i fangreoedd nad ydynt yn cydymffurfio ag amodau'r drwydded a chostau cyffredinol eraill. Yn ôl yr Asesiad Effaith Rheoleiddiol, bydd yr incwm gan ymarferwyr sy'n cael eu cofrestru i roi triniaethau arbennig yn talu am y costau cofrestru a'r costau yn sgil adnewyddu trwyddedau.

Bydd y costau ychwanegol i ymarferwyr yn cynnwys y rhai am ymgyfarwyddo â'r ddeddfwriaeth newydd, costau cofrestru a chostau cyfle yng nghyswllt gwneud cais am drwydded. Ceir hefyd gostau ychwanegol am fynd yn groes i Hysbysiadau Camau Adfer, sy'n arwain at ddirwy, a chostau i'r lleiafrif o ymarferwyr heb gofrestru a gâi hysbysiad stop yn eu hatal rhag darparu triniaethau arbennig.

Byddai Llywodraeth Cymru yn talu ychydig yn llai na £60,000 o gostau am ddatblygu a dosbarthu canllawiau, sesiynau hyfforddi i swyddogion iechyd yr amgylchedd a chodi ymwybyddiaeth.

## Gwahardd rhoi twll mewn rhan bersonol o'r corff i bobl o dan 16 oed

**Bydd costau ychwanegol yr elfen hon o'r Bil ychydig o dan £900,000 dros y pum mlynedd o 2017-18 i 2021-22.** Bydd ymarferwyr yn ysgwyddo costau o ychydig dros £610,000 drwy golli busnes, ymgyfarwyddo â'r ddeddfwriaeth, a dirwyon i'r nifer fach o fusnesau y canfyddir eu bod yn rhoi triniaethau sydd wedi'u gwahardd. Mae’r awdurdodau lleol yn ysgwyddo costau ychwanegol o ychydig o dan £270,000 dros y cyfnod hwn mewn costau staff i helpu busnesau i gydymffurfio â’r ddeddfwriaeth. Bydd Llywodraeth Cymru yn ysgwyddo tua £20,000 o fân gostau am ganllawiau, hyfforddiant a chyfathrebu.

## Asesiadau o’r Effaith ar Iechyd

**Bydd costau ychwanegol y rhan hon o'r Bil ychydig o dan £565,000 rhwng 2017-18 a 2020-21.** Bydd y rhan fwyaf o'r swm hwn (£454,000) yn cael ei hysgwyddo gan gyrff cyhoeddus megis awdurdodau lleol, a bydd yn cynnwys ymgyfarwyddo â’r ddeddfwriaeth newydd, hyfforddiant a llunio Asesiadau o Effaith Gofal Iechyd ychwanegol. Bydd Llywodraeth Cymru yn ysgwyddo costau o £77,500 i ddiweddaru'r canllawiau, cyfathrebu a llunio Asesiadau o Effaith Gofal Iechyd ychwanegol. Bydd Iechyd Cyhoeddus Cymru yn ysgwyddo £33,000 o fân gostau am ganllawiau, hyfforddiant a llunio adnoddau ychwanegol.

## Gwasanaethau fferyllol

Bydd yr adran hon o'r Bil yn cyflwyno system sy'n seiliedig ar anghenion yn lle'r system bresennol, ar gyfer darparu gwasanaethau fferyllol. Bydd y system newydd yn defnyddio Asesiadau o Anghenion Fferyllol ac yn cyflwyno trefn rheoli perfformiad i'w gwneud yn bosibl cymryd camau i fynd i'r afael â darparwyr sy'n tanberfformio, gan gynnwys trefn ymadael. **Er bod costau ychwanegol o £1.5 miliwn rhwng 2017-18 a 2021-22 i’r Byrddau Iechyd Lleol ac ychydig dros £230,000 i gontractwyr fferyllol, mae'r Asesiad Effaith Rheoleiddiol yn credu y bydd y rhain yn llai na'r manteision iechyd o £7.7 miliwn i'r cyhoedd.** Bydd Llywodraeth Cymru hefyd yn arbed £76,000 oherwydd gostyngiad yng nghostau'r apeliadau i Weinidogion Cymru a wneir gan fferyllfeydd, a bydd hynny'n fwy na chyfiawnhau'r gost o baratoi'r canllawiau.

Mae'r costau ychwanegol i Fyrddau Iechyd Lleol wedi'u seilio ar gostau cynnal Asesiadau o Anghenion Fferyllol, comisiynu gwasanaethau ychwanegol i ddiwallu anghenion fferyllol a rheoli contractwyr fferyllol sy'n tanberfformio. Bydd contractwyr fferyllol yn ysgwyddo costau am ddarparu gwybodaeth i alluogi Byrddau Iechyd Lleol i asesu eu perfformiad, ac i ymateb i gamau a gymerwyd i fynd i'r afael â pherfformiad gwael.

Mae'r manteision iechyd wedi'u cyfrifo ar sail amcangyfrif y bydd y gwasanaethau fferyllol a ddarperir yn cynnyddu 20 y cant. Mae’r Asesiad Effaith Rheoleiddiol yn mesur y manteision ar sail canlyniadau’r gwasanaethau a gynigir mewn fferyllfeydd i helpu pobl i roi’r gorau i ysmygu ar dudalennau 222-224. Ar sail cynnydd 20 y cant yn y gwasanaethau a ddarperir o 2019-20, amcangyfrifir y **bydd manteision o £2.58 miliwn y flwyddyn rhwng 2019-20 a 2021-22, sef cyfanswm gwerth £7.7 miliwn o fanteision yn ystod y cyfnod hwn.**

## Datblygu strategaeth ar gyfer darparu toiledau cyhoeddus

Bydd yn ofynnol i bob un o'r awdurdodau lleol baratoi strategaeth ar gyfer darparu toiledau cyhoeddus yn unol â'r rhan hon o'r Bil. Nid yw'r Bil yn cynnwys gofynion i ddarparu toiledau cyhoeddus. Bydd cyllid Llywodraeth Cymru ar gyfer gwella mynediad i doiledau yn aros yr un fath o dan yr opsiwn hwn, sef £200,000. Bydd **ychydig yn fwy na £450,000 o gostau ychwanegol yn sgil yr elfen hon o'r Bil, ac awdurdodau lleol fydd yn talu am ychydig dros £440,000 o'r costau hynny.** Bydd awdurdodau lleol yn ysgwyddo'r gost o ddatblygu strategaethau ac ymgynghori arnynt,

a rhai mân gostau ychwanegol yn sgil rheoli'r broses o ddyrannu grantiau i fusnesau, gan ganiatáu i bobl ddefnyddio toiledau cyhoeddus am ddim.  At hynny, bydd Llywodraeth Cymru yn ysgwyddo rhai mân gostau ychwanegol wrth baratoi ac adolygu canllawiau.

# 5. Ymatebion i'r Bil

Cyflwynwyd y Bil yn y Cyfarfod Llawn gan Rebecca Evans AC, Gweinidog Iechyd y Cyhoedd a Gwasanaethau Cymdeithasol ar 8 Tachwedd 2016. Dywedodd y Gweinidog, er na allai un darn o ddeddfwriaeth fynd i'r afael â phob her sy'n ymwneud ag iechyd y cyhoedd, byddai'r mesurau a geir yn y Bil yn gwneud 'gwahaniaeth cadarnhaol ac ymarferol iawn' mewn nifer o feysydd penodol. Tynnodd sylw hefyd at y ffaith bod y Bil eisoes wedi elwa o waith craffu ac ymgynghori manwl yn ystod y Pedwerydd Cynulliad. Cafodd nifer o newidiadau eu gwneud i gryfhau'r Bil yn ystod y broses honno, gan gynnwys: ymestyn y gwaharddiad ysmygu i dir ysgolion, tir ysbytai a meysydd chwarae cyhoeddus; ychwanegu tyllu'r tafod at y rhestr o leoedd 'personol' i roi twll yn y corff sydd wedi'u gwahardd ar blant dan 16 oed, a; gwneud defnydd o asesiadau o'r effaith ar iechyd yn orfodol mewn rhai amgylchiadau.

Mae'r cynigion yn y Bil wedi cael eu croesawu'n gyffredinol gan Aelodau'r Cynulliad a rhanddeiliaid, er ei fod wedi cael ei ddisgrifio gan rai fel 'cyfle wedi'i golli' i gyflwyno mesurau i fynd i'r afael â rhai o'r materion mwyaf arwyddocaol o ran iechyd y cyhoedd (er enghraifft, gordewdra).

Cafodd yr angen i weithredu ar ordewdra ac anweithgarwch corfforol ei amlygu gan nifer o'r Aelodau yn ystod cyflwyniad y Bil yn y Cyfarfod Llawn (Angela Burns AC, Rhun ap Iorwerth AC, Jenny Rathbone AC, John Griffiths AC).

Nodwyd lleihau niwed alcohol hefyd fel mater iechyd y cyhoedd â blaenoriaeth. Gofynnodd John Griffiths AC i'r Gweinidog am y wybodaeth ddiweddaraf am gynigion Llywodraeth Cymru i gyflwyno isafswm pris fesul uned o alcohol. Dywedodd y Gweinidog:

> *Rydym yn croesawu'r cadarnhad bod Llys y Sesiwn yn yr Alban wedi rhoi ei gymeradwyaeth i gynllun Llywodraeth yr Alban i gyflwyno isafbris uned ar gyfer alcohol. (…). Ond rydym yn cydnabod hefyd, nad hyn efallai fydd diwedd y stori, wrth gwrs. Gallai'n rhwydd fynd i'r Goruchaf Lys yn y pen draw. (…). Rydym yn sicr o'r farn y byddai cyflwyno isafbris uned ar gyfer alcohol yn un o'r camau allweddol y gallem eu cymryd i leihau niwed sy'n gysylltiedig ag alcohol. Rydym yn awyddus iawn i gael deddfwriaeth debyg yma yng Nghymru, ac rydym yn ei ystyried yn rhan hanfodol o'r camau gweithredu ehangach y mae angen i ni eu cymryd yng nghyd-destun ein cynllun cyflawni ar gamddefnyddio sylweddau, y cyfeiriais ato'n gynharach. Ond, fel y dywedais, rydym yn gwylio'r sefyllfa yn yr Alban ac yn ystyried beth y gallem ei wneud.*

Ymhlith y materion penodol eraill a godwyd gan yr Aelodau yn ystod y ddadl honno mae:

- A allai'r Bil gynnwys mesurau sy'n ymwneud ag ansawdd aer, er enghraifft gofyniad i fonitro lefelau llygredd aer y tu allan i ysgolion (Angela Burns AC).
- Y potensial i ymestyn y cyfyngiadau ar ysmygu i gynnwys ardaloedd eistedd awyr agored caffis a bwytai (John Griffiths AC).
- Mewn perthynas â'r cynllun trwyddedu arfaethedig ar gyfer triniaethau arbennig: pryderon am y diffyg rheoleiddio yn y diwydiant trin gwallt (Mark Isherwood AC); yn ogystal â'r angen i sicrhau bod triniaethau cosmetig yn cael eu rheoleiddio yn ddigonol (David Rees AC).

– I ba raddau y bydd y gofyniad i awdurdodau lleol gynhyrchu strategaethau toiledau, heb unrhyw ofyniad i weithredu'r strategaethau hyn mewn gwirionedd, yn arwain at ddarpariaeth well (Angela Burns AC, Caroline Jones AC, Julie Morgan AC, David Rees AC).

Yn ystod gwaith craffu Cyfnod 1 y Pwyllgor, awgrymodd rhanddeiliaid nifer o fesurau i'w cynnwys o bosibl yn y Bil, sydd wedi'u hanelu at fynd i'r afael â materion o ran iechyd y cyhoedd â blaenoriaeth megis gordewdra, ansawdd aer, ac unigrwydd ac unigedd (fel y nodir yn adroddiad Cyfnod 1 y Pwyllgor Iechyd, Gofal Cymdeithasol a Chwaraeon).

# 6. Newidiadau i'r Bil yn ystod Cyfnod 2

Bu'r Pwyllgor Iechyd, Gofal Cymdeithasol a Chwaraeon yn craffu ar Fil Iechyd y Cyhoedd (Cymru) yng Nghyfnod 2 ar 23 Mawrth 2017.

Derbyniwyd pob un o'r gwelliannau a gyflwynwyd gan Lywodraeth Cymru. Er na dderbyniwyd yr un o welliannau'r gwrthbleidiau, dywedodd Gweinidog Iechyd y Cyhoedd a Gwasanaethau Cymdeithasol y byddai'n gweithio gydag Aelodau ac yn ystyried cyflwyno rhagor o welliannau mewn sawl maes yng Nghyfnod 3.

Nodir rhai o'r prif newidiadau a wnaed yng Nghyfnod 2 ac ymrwymiadau'r Gweinidog isod (nid yw hon yn rhestr gynhwysfawr).

## Mynd i'r afael â gordewdra

Cyflwynwyd gwelliannau gan Rhun ap Iorwerth AC, Plaid Cymru, a fyddai'n ei gwneud yn ofynnol i Lywodraeth Cymru lunio strategaeth genedlaethol ar ordewdra a'i hadolygu'n barhaus. Er na dderbyniwyd y gwelliannau hyn, dywedodd y Gweinidog y byddai'n gweithio gyda'r Aelod ac yn ystyried y mater ymhellach, gyda'r bwriad o gyflwyno gwelliannau yng Nghyfnod 3.

## Mynd i'r afael â llygredd aer

Cyflwynodd y gwrthbleidiau nifer o welliannau ar y mater hwn. Ni dderbyniwyd yr un ohonynt; nododd y Gweinidog nifer o gamau gweithredu sy'n cael eu cymryd gan Lywodraeth Cymru, gan gynnwys datblygu canllawiau i annog partneriaeth rhwng byrddau iechyd ac awdurdodau lleol, ac i gefnogi awdurdodau lleol yn eu gwaith mewn perthynas ag ansawdd aer y tu allan i ysgolion ac ar hyd llwybrau teithio llesol. Hefyd, byddai Llywodraeth Cymru yn ymgynghori ar y cyd â gweinyddiaethau eraill y DU ar gynllun ansawdd aer newydd i gyflawni lefelau terfyn nitrogen deuocsid yr UE ar gyfer Cymru a'r DU.

## Rhan 2: Tybaco a chynhyrchion nicotin, Pennod 1: Ysmygu

Mae Adran 15 o'r Bil yn rhoi dyletswydd ar awdurdodau gorfodi i orfodi'r darpariaethau di-fwg ym Mhennod 1 y Bil ac yn galluogi Gweinidogion Cymru i ddynodi personau (neu ddisgrifiadau o bersonau) i fod yn awdurdodau gorfodi. Yn ystod Cyfnod 1, bu'r Pwyllgor Materion Cyfansoddiadol a Deddfwriaethol yn ystyried a ddylai'r Bil nodi'n benodol mai dim ond awdurdodau cyhoeddus a gaiff fod yn awdurdodau gorfodi. Gwnaeth y Gweinidog ymrwymiad i gyflwyno gwelliannau i'r perwyl hwnnw yng Nghyfnod 2. Mae'r Bil bellach yn nodi mai awdurdodau lleol yw'r awdurdodau gorfodi ar gyfer pob math o fangreoedd a cherbydau. Yn ogystal, mae darpariaeth i'r heddlu weithredu fel awdurdod gorfodi mewn perthynas â cherbydau.

## Rhan 2: Tybaco a Chynhyrchion Nicotin, Pennod 2: Manwerthwyr tybaco a chynhyrchion nicotin

Mae Adran 27(6) yn nodi y caiff cofrestr y manwerthwyr 'gynnwys unrhyw wybodaeth arall y mae’r awdurdod cofrestru yn ystyried ei bod yn briodol.' Cyflwynwyd gwelliant gan Angela Burns AC, y Ceidwadwyr Cymreig, i ddileu'r ddarpariaeth hon, a oedd yn pryderu na fyddai'r Bil fel y'i drafftiwyd yn atal yr awdurdodau priodol rhag gofyn i fanwerthwyr ddarparu gwybodaeth a allai fod yn fasnachol sensitif. Er na dderbyniwyd y gwelliant hwn, dywedodd y Gweinidog y byddai'n gweithio gyda'r Aelod dan sylw i gyflwyno gwelliant yng Nghyfnod 3 i'r perwyl mai Gweinidogion Cymru a gâi benderfynu a ddylai unrhyw wybodaeth ychwanegol gael ei chynnwys ar y gofrestr.

## Rhan 3: Triniaethau arbennig

### Trwyddedau Triniaethau Arbennig

O dan y Bil, caiff awdurdodau lleol wrthod rhoi trwydded triniaeth arbennig i rywun a gafwyd yn euog o 'drosedd berthnasol'. Nodir y troseddau perthnasol yn adran 63(3) o'r Bil ac maent yn cynnwys troseddau sy'n ymwneud â thriniaethau arbennig a throseddau iechyd a diogelwch. Yng Nghyfnod 1, roedd y Pwyllgor Iechyd, Gofal Cymdeithasol a Chwaraeon yn poeni nad oedd y troseddau a restrir yn y Bil yn cynnwys troseddau rhywiol, gan olygu na fyddai unrhyw beth o reidrwydd i atal rhywun ar y gofrestr troseddwyr rhyw, er enghraifft, rhag cael trwydded i roi triniaethau arbennig. Argymhellodd y Pwyllgor y dylai'r rhestr o droseddau yn y Bil gael ei diwygio i gynnwys 'troseddau rhywiol'. Wrth ymateb i adroddiad y Pwyllgor, cadarnhaodd y Gweinidog ei bwriad i gyflwyno gwelliannau ar y mater hwn. Roedd gwelliannau'r Llywodraeth a gyflwynwyd - ac y cytunwyd arnynt - yng Nghyfnod 2 yn mynd ymhellach nag argymhelliad y Pwyllgor ac roeddent hefyd yn cynnwys troseddau treisgar yn ogystal â throseddau o natur rywiol, neu droseddau sy'n ymwneud â deunydd neu ddelweddau rhywiol, yn y rhestr o droseddau y gall awdurdodau lleol eu hystyried.

### Tatŵio'r wyneb a phelenni'r llygaid

Cyflwynwyd gwelliannau gan Rhun ap Iorwerth AC, Plaid Cymru, a fyddai'n cyflwyno cyfnod ailfeddwl gorfodol o saith diwrnod ar gyfer tatŵio'r wyneb, ac a fyddai'n gwahardd tatŵio pelenni'r llygaid (ac eithrio'r achosion pan gaiff hynny ei wneud fel gweithdrefn feddygol). Ni chynigwyd y gwelliannau hyn yn ystod Cyfnod 2 ar ôl i'r Gweinidog ymrwymo i weithio gyda'r Aelod dan sylw i sicrhau bod y materion hyn yn rhan o'r ymgynghoriad ar y rheoliadau a fydd yn nodi'r meini prawf trwyddedu a'r amodau trwyddedu gorfodol.

## Rhan 4: Rhoi twll mewn rhan bersonol o'r corff

Roedd Adran 92 o'r Bil yn cyflwyno gwaharddiad ar roi twll mewn rhannau personol o gyrff pobl ifanc o dan 16 oed. Yng Nghyfnod 1, argymhellodd y Pwyllgor Iechyd, Gofal Cymdeithasol a Chwaraeon y dylai'r cyfyngiad oedran gael ei godi i 18 oed. Ymateb oedd hyn i bryderon rhanddeiliaid ynghylch natur fregus rhai pobl ifanc yn 16 oed ac 17 mlwydd oed, y risg posibl o niwed i gyrff sy'n datblygu o hyd, a'r angen am gysondeb â deddfwriaeth arall (fel deddfwriaeth ynghylch tatŵio pobl ifanc dan oed ac anffurfio organau rhywiol merched).

Derbyniodd y Gweinidog argymhelliad y Pwyllgor ac fe gyflwynodd welliannau yng Nghyfnod 2 a oedd yn codi'r cyfyngiad oed arfaethedig ar gyfer rhoi twll mewn rhan bersonol o'r corff o 16 i 18 oed.

## Rhan 6: Gwasanaethau fferyllol

Ni dderbyniwyd unrhyw welliannau i'r rhan hon o'r Bil yng Nghyfnod 2. Cyflwynwyd gwelliannau gan y gwrthbleidiau oedd â'r nod o sicrhau bod asesiadau o anghenion fferyllol yn ystyried cyfraniad meddygon feryllol, ac i'w gwneud yn ofynnol i fyrddau iechyd benderfynu ar geisiadau o fewn amserlen benodol. Roedd y Gweinidog o'r farn bod darpariaethau presennol y Bil yn ymdrin â'r materion hyn yn ddigonol ac yn fwy priodol.

## Rhan 7: Darparu toiledau

Ni dderbyniwyd gwelliannau'r gwrthbleidiau a fyddai'n ei gwneud yn ofynnol i 'strategaeth toiledau genedlaethol' gael ei llunio. Cyflwynwyd gwelliannau eraill yn ymwneud â'r rhan hon gan Caroline Jones AC, UKIP, er mwyn ceisio newid cynnwys y canllawiau statudol. Er na chefnogwyd y gwelliannau hyn, cytunodd y Gweinidog i ystyried un o'r materion a godwyd ymhellach, sef yr angen i awdurdodau

lleol gydweithio pan fo'r angen am ddarpariaeth doiledau yn berthnasol i fwy nag un awdurdod (er enghraifft, ar ffordd bwysig sy'n croesi ffiniau awdurdodau lleol).

# 7. Geirfa Gymraeg

## Termau penodol i'r Bil

– acupuncture - **aciwbigo**

– addiction - **dibyniaeth**

– age of sale – **oedran gwerthu**

– allergic / toxic reactions – **adweithiau alergaidd/gwenwynig**

– anus - **anws**

– areola - **areola**

– avoidable ill health – **afiechyd y gellid ei osgoi**

– blood-borne viruses – **feirysau a gludir yn y gwaed**

– body piercing – **tyllu'r corff**

– breast – **y fron**

– buttock – **y ffolen**

– cessation tool – **dull o roi'r gorau i ysmygu**

– cigarette papers – **papurau sigaréts**

– community pharmacies – **fferyllfeydd cymunedol**

– control of entry – **rheoli mynediad**

– cosmetic and therapeutic procedures – **triniaethau cosmetig a therapiwtig**

– de-normalising – **gwneud ysmygu'n llai normal**

– dispensing doctors / services / appliance contractors – **meddygon/gwasanaethau/contractwyr offer fferyllol**

– disposable e-cigarette – **e-sigaréts untro**

– dual users – **defnyddwyr deuol**

– due diligence – **diwydrwydd dyladwy**

– electrolysis - **electrolysis**

– electronic cigarettes (e-cigarette) – **sigaréts electronig (e-sigaréts)**

– enclosed public places – **mannau cyhoeddus caeedig**

– enforcement action – **camau gorfodi**

– food hygiene rating offences - **troseddau sgorio hylendid bwyd**

– foreskin – **y blaengroen**

– health impact assessments - **asesiadau o'r effaith ar iechyd**

– herbal cigarettes – **sigaréts llysieuol**

– hospital grounds - **tir ysbytai**

– illegal tobacco – **tybaco anghyfreithlon**

– infectious diseases – **clefydau heintus**

– intimate piercing – **(rhoi) twll mewn rhan bersonol o'r corff**

– licence - **trwydded**

– mandatory licensing scheme – **cynllun trwyddedu mandadol**

– manufacturer(s) – **gwneuthurwr (gwneuthurwyr)**

– Minimum Unit Pricing for Alcohol (MUP) – **Isafswm Pris Fesul Uned o Alcohol**

– natal cleft – **rhych y pen ôl**

– national register – **cofrestr genedlaethol**

– national register of retailers of tobacco and nicotine products – **cofrestr genedlaethol o fanwerthwyr tybaco a nicotin**

– Nicotine Inhaling Devices (NIDs) – **Dyfeisiau Mewnanadlu Nicotin**

– nicotine patches/ gum / lozenges / products – **patsys/gwm/losenni/cynhyrchion nicotin**

– Nicotine Replacement Therapy (NRT) – **Therapi Disodli Nicotin**

– nipple – **y deth**

– non-registered premises – **mangreoedd nad ydynt wedi'u cofrestru**

– non-smokers – **pobl nad ydynt yn ysmygu**

– normalising - **normaleiddio**

– offence - **trosedd**

– open spaces – **mannau agored**

– penis – **y pidyn**

– perineum – **y perinëwm**

– pharmaceutical list(s) – **rhestr(au) fferyllol**

– Pharmaceutical Needs Assessment (PNA) – **Asesiad o Anghenion Fferyllol**

– pharmaceutical services – **gwasanaethau fferyllol**

– provision of toilets – **darparu toiledau**

– proxy purchase –**prynu ar ran rhywun**

– pubic mound – **y mons pubis**

– public playgrounds - **meysydd chwarae cyhoeddus**

– rechargeable e-cigarette – **e-sigarét y gellid ei ailwefru**

– refill – **ail-lenwi**

– refillable cartridge – **cetrisen y gellid ei hail-lenwi**

– registered – **cofrestredig/wedi ei gofrestru**

– registration authority **– awdurdod cofrestru**

– regulation-making power – **pŵer i wneud rheoliadau**

– Remedial Action Notice (RAN) – **Hysbysiadau Camau Adfer**

– remote sales – **gwerthu o bell**

– re-normalising - **ailnormaleiddio**

– Restricted Premises Order (RPO) – **Gorchymyn Mangre o dan Gyfyngiad**

– Restricted Sales Order (RSO) – **Gorchymyn Gwerthu o dan Gyfyngiad**

– restrictions - **cyfyngiadau**

– retailers - **manwerthwyr**

– 'roll your own' (tobacco) (RYO) – **rhydd i'w rolio (tybaco)**

– school grounds - **tir ysgolion**

– scrotum – **y ceillgwd**

– second-hand smoke – **mwg pobl eraill**

– sexual assault – **ymosodiad rhywiol**

– smoke-free – **di-fwg**

– special procedures – **triniaethau arbennig**

– stop notice(s) – **hysbysiad(au) stop**

– tattooing - **tatŵio**

– Tobacco Control Action Plan – **Cynllun Gweithredu ar Reoli Tybaco**

– Tobacco Products Directive – **Cyfarwyddeb ar Gynhyrchion Tybaco**

– tobacco retail register – **cofrestr manwerthu tybaco**

– toilet facilities – **cyfleusterau toiledau**

– unhygienic practices **– ymarferion anhylan**

– value of time (VOT) – **gwerth amser**

– vapour – **anwedd**
vaping - **mewnanadlu**

– Vulva – **y fwlfa**

## Termau deddfwriaethol cyffredinol

– Advisory, Conciliation and Arbitration Service (ACAS) - **Gwasanaeth Cynghori, Cymodi a Chyflafareddu**

– affirmative procedure – **gweithdrefn gadarnhaol**

– affirmative resolution – **penderfyniad cadarnhaol**

– British Medical Association (BMA) - **Cymdeithas Feddygol Prydain**

– British Toilet Association (BTA) - **Cymdeithas Toiledau Prydain**

– Broadcast Committee of Advertising Practice (BCAP) - **Y Pwyllgor Darlledu ar Arferion Hysbysebu**

– Chartered Institute of Environmental Health (CIEH) - **Sefydliad Siartredig Iechyd yr Amgylchedd**

– children and young people – **plant a phobl ifanc**

– children's rights impact assessment – **asesiad o'r effaith ar hawliau plant**

– commencement – **cychwyn**

– Committee of Advertising Practice (CAP) - **Pwyllgor Arferion Hysbysebu**

– Continuing Professional Development (CPD) - **Datblygiad Proffesiynol Parhaus**

– Department for Transport (DfT) - **Yr Adran Drafnidiaeth**

– duty (duties) – **dyletswydd(au)**

– Electronic Cigarette Industry Trade Association (ECITA) - **Cymdeithas Fasnach y Diwydiant Sigaréts Electronig**

– Electronic Nicotine Delivery Systems (ENDS) - **Systemau Electronig ar gyfer Cyflenwi Nicotin**

– Electronic Non-nicotine Delivery Systems (ENNDS) - **Systemau Electronig nad ydynt yn Cyflenwi Nicotin**

– Environmental Health Officer (EHO) - **Swyddog Iechyd yr Amgylchedd**

– European Convention on Human Rights (ECHR) - **Confensiwn Ewropeaidd ar Hawliau Dynol**
Explanatory Memorandum – **Memorandwm Esboniadol**

– financial resolution – **penderfyniad ariannol**

– Fixed Penalty Notice (FPN) - **Hysbysiad Cosb Benodedig**

– Framework Convention on Tobacco Control (FCTC) - **Confensiwn Fframwaith Sefydliad Iechyd y Byd ar Reoli Tybaco**

– Full Time Equivalent (FTE) - **Cyfwerth ag Amser Llawn**

– general principles – **egwyddorion cyffredinol**

– Government of Wales Act 2006 (GOWA) - **Deddf Llywodraeth Cymru 2006**

– guidance – **canllawiau**

– health and well-being – **Iechyd a lles**

– inequalities in health – **anghydraddoldebau mewn iechyd**

– legislative competence – **cymhwysedd deddfwriaethol**

– life expectancy- **disgwyliad oes**

– Local Health Board (LHB) - **Bwrdd Iechyd Lleol (BILl)**

– Medicines and Healthcare Products Regulators Agency (MHRA) - **Asiantaeth Rheoleiddio Meddyginiaethau a Chynhyrchion Gofal Iechyd**

– Member in charge (of the Bill) – **Aelod sy'n gyfrifol (am y Bil)**

– mortality rates – **cyfraddau marwolaeth**

– National Institute for Health and Care Excellence (NICE) - **Y Sefydliad Cenedlaethol dros Ragoriaeth mewn Iechyd a Gofal**

– Office of Fair Trading (OFT) - **Y Swyddfa Masnachu Teg**

– Personal Social Services Research Unit (PSSRU) - **Uned Ymchwil Gwasanaethau Cymdeithasol Personol**

– practitioners – **ymarferwyr**

– prescriptions - **presgripsiynau**

– prevalence rates (e-cigarettes) – **nifer y bobl sy'n eu defnyddio (e-sigaréts)**

– preventative approach – **dull ataliol**

– prudent health care – **gofal Iechyd darbodus**

– Quality Adjusted Life Years (QALY) - **Blynyddoedd o Fywyd wedi'u Haddasu yn ôl Ansawdd**
regulation(s) – **rheoliad(au)**

– Regulatory Impact Assessment (RIA) - **Asesiad Effaith Rheoleiddiol**

– Royal Assent – **Cydsyniad Brenhinol**

– short title – **enw byr**

– Small and Medium-sized Enterprise (SME) - **Busnesau Bach a Chanolig**

– Stage 1 – **Cyfnod 1**

– statutory requirement – **gofyniad statudol**

– subordinate legislation – **is-ddeddfwriaeth**

– United Nations Convention on the Rights of the Child (UNCRC) - **Confensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn (CCUHP)**

– Welsh Local Government Association (WLGA) - **Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru (CLILC)**

– Welsh Network of Healthy School Schemes (WNHSS) - **Cynlluniau Ysgolion Iach - Rhwydwaith Cymru**

– World Health Organisation (WHO) - **Sefydliad Iechyd y Byd**